

Menter Ieuenctid Cristnogol (M.I.C.)

Yn gwasanaethu eglwysi Sir Gaerfyrddin.

Llythyr Newyddion a Gwedi (Rhifyn 25) www.micsigar.org



Ble Mae'r Baban?

Tymor Y Nadolig
2017

Yn y rhifyn hwn:

Oedfa Joio Gyda Iesu	2
Taith Stori'r Mis	3
Clybiau Plant Myrddin a Llanw 2018.	3
Jôc	4
Digwyddiadur M.I.C. am dymor y Gwanwyn 2018	4
Y Gornel Weddi	4



Ond, eto i gyd, dyna'n union beth sy'n digwydd dros y Nadolig. Bydd mwyafrif helaeth o bobl ein gwlad yn dathlu'r yl gyda'r trimins i gyd, heb yr Un mae'r dathlu i fod amdano. Fel dywedodd y fam yn y bwyty moethus, byddai ei gael E yn "llawer gormod o ffwdan."



Un tro, aeth dwy wraig allan am bryd o fwyd i fwyty moethus. Yn digwydd bod yn eistedd wrth fwrdd cyfagos oedd ffrind i un ohonynt a daeth i'w chyfarch gan ofyn beth oedd yr achlysur arbennig? Atebwyd y ffrind gyda gwen lydan, "Rydym yn dathlu penblwydd y baban yn ein teulu sy'n ddwy flwydd oed heddiw."

"Dyna wych", meddai'r ffrind. "Ble mae'r un bach?" Atebodd y fam, "Mae e gyda'i famgu. Mae'n cymryd gofal ohono tra bod ni'n dwy'n dathlu. Byddai wedi bod yn llawer gormod o ffwdan i ddod ag e gyda ni."

Dyna i chi barti rhyfedd! Dathlu penblwydd plentyn heb fod yna goeso i'r plentyn i'w barti ei hun!

Wrth gwrs, dyw hynny'n ddim byd newydd. Pan anwyd Iesu ym Methlehem, doedd dim lle iddo yn unman heblaw am lety anifeiliaid. Wedi tyfu'n ddydd fe'i gwrthodwyd gan ei bobl ei hun a gan bobl grefyddol ei ddydd. Ond roedd wastad gweddill ffyddlon oedd yn ei garu a'i ganlyn, ac mae hynny wedi bod yn wir ar hyd y canrifoedd.

Un o gwri ein cenedl cafodd

ei fywyd wedi ei drawsnewid yn llwyr gan Iesu oedd William Williams o Bantycelyn. Eleni rydym wedi bod yn dathlu 300 mlynedd ei enedigaeth. Mae'n debyg bod Williams wedi teithio tua 150,000 o filltiroedd ar gefn ceffyl i son am am ei Arglwydd ac wedi cyfansoddi bron 900 o emynau yn canmol ei glod. Mae'r cwpld canlynol o eiddo Williams yn crynhoi ei serch tuag at ei Waredwr: *Iesu, Iesu rwyd ti'n ddigon, rwyd ti'n llawer mwy na'r byd.*




William Williams 1717-91.
Y Pêr Ganiedydd

Dw i'n siŵr na fyddai'r un ohonom fel y ddwy wraig yn yr hanes yn trefnu parti i blentyn heb fod y plentyn yn bresennol. Yn yr un modd, boed i ni beidio dathlu gyl dyfodiad Mab Duw i'r byd heb ei groesawu i'n plith ac i'n calonnau i fyw. Oni fyddai hynny'n ddathlu gwag a gwirion?
Nadolig llawen i chi gyd!



*Do, carodd Duw y byd
gymaint nes iddo roi ei unig
Fab er mwyn i bob un sy'n
credu ynddo ef beidio â
mynd i ddistryw ond cael
bywyd tragwyddol."*
(Ioan 3:16)

Diolch Yn Fawr Am Wasanaeth Ffyddlon



Parchedigion Ifan a Catrin Roberts

Yn dilyn 7 mlynedd o wasanaeth ffyddlon i'r Arglwydd Iesu Grist yng Nghwm Gwendraeth mae'r amser wedi dod i'r Parchg. Ifan a Catrin Roberts i ymddeol. Mae eu llafur dros yr Arglwydd wedi bod

yn ddi ball, eu gweledigaeth yn eang, a'u tystiolaeth i'r ffydd yn gadarn. Bydd y golled ar eu hôl yn enfawr, nid yn unig i'r eglwysi Presbyteriaidd o dan eu gofal, ond hefyd i M.I.C. ac eglwysi'r sir gyfan.

Yn ogystal â phregethu Beiblaidd a chadarn o Sul i Sul mae'r ddau wedi ymroi o'u hamser a'u doniau yn llwyr at achos Iesu Grist. O dan arweinyddiaeth fedrus Ifan mae Henaduriaeth Myrddin wedi ei thrawsffurfio i fod yn gorff gyda gweledigaeth a strategaeth glir. Yn yr un

modd, mae Catrin gyda'i doniau cyfathrebu naturiol wedi ennill calonnau plant wrth iddi rannu'r newyddion da yn wythnosol mewn 3 clwb plant, yn ogystal ag arwain tîm, "Agor Y Llyfr" yn Ysgol Pontyberem.

Ar ran M.I.C. a'r holl eglwysi sy'n perthyn i'r Fenter carwn ddweud "diolch yn fawr" gan ddymuno iddynt fendith helaeth yr Arglwydd wrth iddynt ymgartrefi yng Nghaerdydd. "Da, was da a ffyddlon: buost ffyddlon..." (Mat. 25:23)

Joio Gyda Iesu 2017



Mike Adams yn dal sylw'r gynulleidfa gyfan yn yr oedfa, "Joio Gyda Iesu."



Parch Tom Defis (cadeirydd MIC) yn cyflwyno Gary Andreson (Prifathro Ysgol Gymraeg Llangennech) gyda chopi o "Ganu Clod" gyda chôr yr ysgol yn y cefndir.

Eleni, am y tro cyntaf fe wnaeth oedfa flynyddol M.I.C., sef "Joio Gyda Iesu", ymweld â dwyrain y sir, a chynhaliwyd yr oedfa yng Nghapel Bethesda, Llangennech. Daeth tyrfa niferus ac roedd yn olygfa odidog i weld y llawr yn llawn a nifer o seddi i fyny'r llofft wedi eu cymryd hefyd.

Arweiniwyd yr addoliad yn fywiog a hwylus gan fand lleol a chymerwyd rhan gan aelodau ifanc o Ysgolion Sul y cylch. Bu côr Ysgol Gymraeg Llangennech yn canu dwy gân yn hyfryd a swynol o dan ofal medrus Lewis Richards. Fel arwydd o werthfawrogiad am gyfraniad yr ysgol, cyflwynodd Y Parchg. Tom Defis (cadeirydd pwyllgor llywio M.I.C.) gopi o'r llyfr canu Cristnogol, "Canu Clod", i'r prifathro, Mr Gary Anderson.

Un o'r gwstai gwadd eleni oedd Meilyr Geraint – sef mab Martyn Geraint - o Bontypridd. Fe'i holwyd am ei brofiadau a'i ffydd gan Y Parchg. Catrin Roberts, ac yn dilyn hynny fe wnaeth Meilyr ganu cân o'i gyfansoddiad ei hun o'r enw, "Ildio."

Eitem boblogaidd o flwyddyn i flwyddyn yw'r sgets. Eleni perfformiwyd sgets "Y Ddarlith" gan aelodau o eglwys Y Tabernacl, Llwynhendy. Fel arfer roedd y sgets yn un ddigri gyda neges ddifrif.

Yn dilyn y sgets daeth yr ail westai i'r blaen, sef Mike Adams o Lanelli sy'n gweithio i Scripture Union Cymru. Mae Mike yn gyfathrebwr dawnus ac effeithiol, gyda hiwmor anhygoel, a buan iawn roedd ganddo sylw pawb yn y capel. Diweddwyd yr oedfa wrth i'r Parchg. Llewelyn Picton Jones,

gweinidog Bethesda gyflwyno'r fendith. Dalier sylw bod oedfa M.I.C. y flwyddyn nesaf ar brynghawn Sul Tachwedd 4ydd am 2:30 y.p. Y siaradwr gwadd fydd Ben Thomas, Cricieth. Am ragor o luniau o'r oedfa ewch i www.micsirgar.org



Rhan o'r gynulleidfa luosog a ddaeth ynghyd i'r oedfa, "Joio Gyda Iesu."



Meilyr Geraint a fu'n rhannu am ei ffydd gyda Catrin Roberts, yn canu y gân, "Ildio" - un o'i gyfansoddiadau ei hun.



Aelodau'r band: (O'r chwith i'r dde): Geraint Williams; Dewi Llewelyn Davies; Cai Llewelyn Jones; Annwen Williams



Aelodau'r gr p sgets: (Cefn): Angharad Jenkins; Gareth Havard; Dafydd Jenkins. (Blaen): Morgan Jenkins; Dyfan Havard.

Taith Stori'r Mis

Mae misoedd Hydref a Thachwedd yn adegau pan rwyf ar daith o gwmpas eglwysi yn sir Gâr yn arwain oedfaon teuluol. Unwaith eto eleni mae'r dyddiadur wedi bod yn llawn a charwn ddiolch yn fawr i bawb wnaeth estyn gwahoddiad i mi ymweld.

Y neges o dan sylw eleni oedd dameg Y Mab Colledig. Cyflwynwyd y stori tri chymeriad gan ddefnyddio pwynt p er, gydag ychydig o hud a lledrith. Fel ym mhob un o ddamhegion Iesu gwelwyd bod gan y ddameg hon wers bwysig i'w rhannu. Ym mherson y tad cariadus cawn gip olwg ar gymeriad Duw sy'n llawn trugaredd a maddeuant pan fod pechadur annheilwng yn troi ato. Mae ei freichiau ar agor i dderbyn pwy bynnag sydd, fel y mab ifancaf yn y ddameg, yn edifar am ei bechodau. Mae'r ddameg hefyd yn ein hannog i beidio â bod yn galon galed fel y mab hynaf ond i fod yn barod i faddau i eraill. *"Maddau i ni ein troseddau fel yr m ni wedi maddau i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn."*

Isod mae rhai o'r plant a'r bobl ifanc fu'n cymryd rhan yn yr oedfaon. Am ragor o luniau o bob capel ble bûm yn ymweld ewch i www.micsirgar.org



Plant o gapel Blaenycod



Plant a phobl ifanc o Penuel, Caerfyrddin



Plant a phobl ifanc o Moriah, Brynaman



Plant o gapel Cana gyda'i gweinidog



Plant a phobl ifanc o Gapel Seion, Drefach



Pobl ifanc o Providence, Llangadog

Arweinwyr Newydd I Glybiau Plant Myrddin

Llanw 2018



Sion Jones a Rhys Hughes:
Arweinwyr Clwb G.I.G. Caerfyrddin



Cerian Beeden:
Arweinydd Clwb
J.A.M. Penygroes.



Gwenllian Stephens:
Arweinydd Clwb
fi a Fe Llanarthne.



Bydd yr yml Gristnogol "Llanw" yn dod i dref Cydweli yn ystod wythnos Y Pasg 2018.

Mae chwech o glybiau Cristnogol i blant yn cwrdd yn wythnosol mewn gwahanol ardaloedd ar draws sir Gaerfyrddin sef, Llangennech; Penygroes; Caerfyrddin; Rhydaman; Pontyberem a Llanarthne. Maent i gyd wedi eu sefydlu gyda chefnogaeth Henaduriaeth Myrddin ac mewn cydweithrediad â M.I.C.

Y tymor hwn rydym wedi croesawu pedwar arweinydd newydd sef, Sion Jones a Rhys Hughes i arwain y clwb yng Nghaerfyrddin; Cerian Beeden i arwain y clwb ym Mhenygroes; a Gwenllian

Stephens i arwain y clwb yn Llanarthne. Mae'r clybiau yn trefnu gweithgareddau llawn hwyl gyda gemau, cystadlaethau, gwobrau a chreffft, a'r nod yw cyflwyno'r newyddion da am Iesu Grist mewn ffordd sy'n ddeniadol i blant. Dymunwn bob benthith i'r pedwar yn y gwaith pwysig hwn.

Os oes gyda chi blant ym mlynnyddoedd 2 - 6 fyddai'n hoffi mynychu un o'r clybiau yn y sir, cysylltwch â mi am fanylion pellach.

Blwyddyn nesaf (Ebrill 2ail - 5ed) bydd yr yml Gristnogol "Llanw" yn ymweld â sir Gaerfyrddin am y tro cyntaf yn ei hanes. Mae "Llanw" yn darparu ar gyfer pob oed gyda threfniadau arbennig i blant. Bydd oedfa bob bore o dan arwiniad Dr Rhys Llwyd ac yna gyda'r hwyr bydd oedfaon o dan ofal y canlynol: **Nos Lun:** Dr Owain a Jos Edwards **Nos Fawrth:** Mike Adams; **Nos Fercher:** Gwilym Tudur; **Nos Iau:** Geraint Morse. Nodwch y dyddiadau a gwnewch bob ymdrech i alw heibio am wledd ysbrydol. (Canolfan Y Dywysoges Gwenllian, Cydweli SA17 4UL).

Nigel Davies,
Swyddog Plant ac Ieuenctid M.I.C.,
Llain Deg,
Llangynin,
San Clêr,
Caerfyrddin SA33 4JY

Rhif ffôn: (01994)230049

E - bost: mic@uwclub.net Gwefan: www.micsirgar.org

Jôc



Yn fuan ar ôl llwyddo yn ei brawf gyrru gofynnodd bachgen ifanc i'w dad os allai gael ddefnyddio'r car. Meddai ei dad a oedd yn weinidog, "Gweithia di'n galed ar gyfer yr arholiadau, rho amser i ddarllen dy Feibl a thorra dy wallt, ac mi wnawn ni drafod y mater."

Aeth mis heibio a daeth y mab at ei dad yn gofyn yr un cwestiwn. Meddai ei dad, "Rwy'n falch iawn ohonot ti. Rwy'ti wedi llwyddo yn yr arholiadau ac rwy'ti wedi bod yn darllen dy Feibl yn gyson, ond rwy'ti'n dal i fod heb dorri dy wallt!"

Ar ôl meddwl am ychydig atebodd y mab, "Roedd gwallt hir gan Samson, Moses, Noa, a hyd yn oed Iesu."

"Ti'n iawn" meddai ei dad. "Ond cofia, cerdded roedden nhw'n gwneud i bob man!"

Y GORNEL WEDDI



"Mae gweddï daer rhywun sydd â pherthynas iawn gyda Duw yn beth grymus ac effeithiol." (Iago 5:16 beibl.net).

Buaswn yn gwerthfawrogi eich gweddïau am y pwyntiau canlynol:

DIOLCH.....

- am y fendith a gafwyd yn yr oedfa, "Joio Gyda Iesu."
- am y cyfle i rannu'r newyddion da gyda channoedd o bobl o bob oed yn ystod taith "Stori'r Mis."
- am yr arweinwyr newydd i glybiau plant Myrddin. Gweddïwn am fendith Duw ar eu gwaith.
- am y Nadolig, ac am fod Iesu wedi dod i fod yn Waredwr i ni.
- am ffyddlondeb yr Arglwydd ar hyd y flwyddyn.

DEISYFWN FENDITH DUW

- ar Sul Weddi M.I.C. ar Ionawr 7fed
- ar y trefniadau ar gyfer chwaraeon M.I.C. ar Ionawr 20fed.
- ar y penwythnosau i bobl ifanc yng Ngholeg Y Bala yn Ionawr a Chwefror.
- ar glybiau gwyliau M.I.C. fydd yn cael eu cynnal adeg hanner tymor a'r Pasg.
- ar yr yl Gristnogol Llanw fydd yn cael ei chynnal adeg Y Pasg yng Nghydweli.
- ar waith M.I.C. yn gyffredinol.

Digwyddiatur M.I.C. Am Dymor Y Gwanwyn 2018

SUL WEDDI M.I.C.



Cynhelir Sul weddi blynyddol M.I.C. ar **Ionawr 7fed** 2018.

Gwerthfawrogi'r pe buasech yn medru

sicrhau bod amser yn cael ei neilltuo yn ystod oedfaon y Sul i gofio am waith y Fenter. Bydd gwybodaeth bellach yn cyrraedd yr eglwysi hynny sy'n aelodau o M.I.C. yn y dyfodol agos.

Coleg Y Bala



PENWYTHNOS SOULED OUT

Ionawr 26ain - 28ain
15 - 19 oed +

PENWYTHNOS CWRYS IEUENCTID

Chwefror 16eg - 18fed
Blynyddoedd 7 - 11
Bws am ddim.

CHWARAEON M.I.C.

Bydd cystadlaethau chwaraeon dan do ar gyfer yr eglwysi hynny sy'n perthyn i M.I.C. yn cael eu cynnal ar ddydd **Sadwrn Ionawr 20fed** yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin.




Pêl Droed / Pêl Rwyd.
Cynradd ac Uwchradd.

Bydd pob cystadleuaeth yn 5 bob ochr ar wahan i'r gystadleuaeth bêl droed uwchradd a fydd yn 4 bob ochr.

Os nad oes digon o nifer gennych i ffurfio tîm cofrestrwch y nifer sydd gennych ac mi wnawn ein gorau i'w gosod mewn tîm.

Dyddiad cau: Rhagfyr 31ain 2017



Clwb
Gwyliau
Cristnogol

Chwefr. 19 - 21
+
Ebrill 9 - 11

Bydd M.I.C. yn cynnal clwb hwyl yn ystod gwyliau hanner tymor Chwefror a gwyliau'r Pasg.

Chwefror 19eg - 21ain

Festri Tabernacl, Caerfyrddin
10:30 - 12:30. Mynediad am ddim.
(Mae lleoliad clwb gwyliau'r Pasg i'w gadarnhau).

Gemau; cystadlaethau; gwobrau;
crefft; hwyl a sbri.

Croeso cynnes i blant bl. 2- 6.